**Cyngor Cymuned Ganllwyd**

**Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Gorffennaf 12fed 2017.**

**Presennol.**

Cyng D.Morris,Cyng S.Roberts, Cyng C.Edwards.Cyng G.Edwards, Cyng P.Jenkins

**Ymddiheuriadau**

Cyng G.Jones Cyng G.Hughes Cyng C.Dixon

**Safon we**

Cyng Roberts yn croesawu Mr E.Ap Gomer i 'r cyfarfod er mwyn trafod y safle Wefan arfaethedig.

Yn dilyn y drafodaeth mae'r cyngor ar ddeall fod yn bosib cael y manylion isod ar y safle;

Yn ofynnol gyfreithol:

Manylion cyllid,polisi iaith,cod ymddygiad,awdit, manylion y cynghorwyr a'r clerc.

Cofnodion + agenda pob mis (cyhoeddi 3 diwrnod cyn cyfarfod)

Cyfeiriad e-bost i'r clerc.

Ychwanegol:

Cysylltiadau gyda Un Llais Cymru,Cyngor Gwynedd,S.N.P,C.N.C.

Bydd rhaid penderfynnu ar cynnwys y tudalen gyntaf o'r safle e.e llun or ardal gyda crynodeb or ardal a gynrychiolir gan y cyngor.

**Bydd y safle yn ddwy ieithog.**

**------------**

Yn dilyn trafodaeth pellach penderfynodd y cyngor am symud ymlaen gyda'r Wefan gan ofyn Mr Ap Gomer i wneud y Gwaith.

Bydd y cyngor yn mynd am opsiwn dyfynbris 2 sef creu,sefydlu a chynnal y wefan dros 3 blynedd.

**Datgan diddordeb.**

Neb

**Cofnodion cyfarfod Mehefin 14eg 2017**.

Cynnigwyd yn gywir gan Cyng Morris ac eilwyd gan Cyng Roberts.

**Materion yn codi.**

**Toiled cyhoeddus y Ganllwyd**—Mae'r cyngor cymuned wedi talu'r bil o £250.

**Y Bothy**- Cyng Dixon wrthi'n cadarnhau pwy yw'r cyswllt re Penthros Isaf sef Mr Richard Pring.

Mae'n debyg fod sefydliad Mr Pring (Mountain Bothies Association) ddim am gymeryd dim cyfrifoldeb am ymddygiad pobl sydd yn defnyddio'r bothy mewn ffyrdd gwrth gymdeithiasol neu yn anghyfreithlon.

Mae'n debyg fod rhaid cysylltu a'r heddlu os yw ymddygiad o'r fath yn parhau.

Caiff y materei rhoi yn ol ar yr agenda ar ol derbyn gwybodaeth pellach.

**Awdit 2016-** Dal i ddisgwyl ymateb gan Mr Evans Swyddfa Awdit Cymru.

**Coed afalau-** disgwyl clywed gan swyddogion y Parc os yw y cais am 4 coeden wedi bod yn llwyddianus.

**Cynghorwr Sir.**

Cyng Jenkins wedi cysylltu a Chyngor Gwynedd ynglyn gwaith clirio ffosydd yn ardal Beech Rd.

Mae Cyngor Gwynedd yn parhau i glirio malurion naturiol oddiwrth y ffosydd yn yr ardal yma.Mae'r cyngor yn ail ddefnyddio pridd sydd wedi ei dynnu o'r ffosydd wrth wasgu i'r tir wrth y ffos gan gobeithio bydd hyn yn lleihau'r dwr ddod yn ol i'r ffos ar ffordd.

Mae'r cyngor yn hapus ar gwaith sydd yn cael ei wneud yn yr ardal.

**Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.**

Yn dilyn trafodaeth yn cyfarfod olaf y cyngor yn mis Mehefin mae Cyng Morris wedi cysylltu a Mr Thompson a mae'r gwaith cynnal a chadw rhai o'r llwybrau lleol wedi cychwyn.

Nid oedd gan unrhyw gynghorwr arsylwad ar gyflwr unrhyw llwybr cyhoeddus lleol.

**Pwyllgor Llwybrau Cyhoeddus.**

Mae'r cyfarfod arfaethedig a drefnwyd ar gyfer 13eg Gorffennaf wedi ei ganslo oherwydd absenoldeb aelodau pwyllgor.

Mae Nicola Maysmor yn disgwyl babi a bydd yn gorffen gweithio (mamolaeth) diwedd y mis.

Os gan unrhyw gynghorydd unrhyw sylw neu arswliad ynglyn materion i ymwneud a tir/eiddo CNC cysylltwch a'r clerc (e-bost) cyn diwedd y mis.

Mae Mr Evans (Trust) a Liz Haynes (Cyngor Gwynedd) yn hapus i dderbyn unrhyw sylw ar y pwnc yma ar e-bost.

Unrhyw gynghorwr a sylw cysylltwch ar clerc yn y lle cyntaf.

**Cyflwr ffosydd a gwteri ardal Beech Road.**

Mae'r mater yma wedi cael ei drafod hefo'r Cynghorwr Sir (uchod)

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Mehefin 2017

| | | |
|---|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | | £6467.81 |
| Derbyniwyd: | Rhodd Matt Ward | £200.00 |
| Taliadau: | Cyflog/Paye | £100.00 |
| | Neuadd y pentref | £165.00 |
| Yn y Banc diwedd mis | | £6402.81 |

Derbyniwyd rhodd o £500 gan Matt Ward. Clerc i rhoi'r siec yn y banc.

Zurich insurance yn gofyn am £424.44 i adnewyddu ysiwriant y cyngor.
Ar ol trafodaeth penderfynodd y cyngor i adnewyddu'r ysiwriant hefo Zurich.
Yn dilyn awdit 2017 nodwyd y cwmni BDO (auditor) fod rhaid i'r cyngor ol dyddio ffurflen cyllid i gefnogi cais am praesept am y flwyddyn 2016/17.

Cytunodd y cyngor fod y ffurflen a gynhyrchir gan y clerc yn adlewyrchu costau arfaethedig ac incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17 a cafodd y manylion eu ddefnyddio i benderfynnu swm a cais am praesept y flwyddyn.

Copi o'r ffurflen;

Cyllid posib 2015-16 (i gefnogi cais praesept -ol-dyddio)

Balans arian yn y banc: 01.04.2015 £4864.05

<u>Treuliau</u>

| | |
|---|---|
| Cyfrifydd | £ 600.00 |
| Llwybrau (ad daliad) | £1355.00 |
| Cyflog Clerc | £1300.00 |
| Ysiwriant | £525.00 |
| Llogi'r Neuadd | £175.00 |
| Llogi'r Neuadd (cyf llwybrau) | £45.00 |
| Rhoddion | £500.00 |
| Eitemau amrywiol | £200.00 |
| Cyfanswm taliadau posib | £4700.00 |

<u>Derbyniadau posib:</u>

| | |
|---|---|
| Ad-daliad llogi'r Neuadd | £ 45.00 |
| Ad-daliad Cynnal&chadw | £1335.00 |
| Cyfanswm | £1380.00 |

Cydwysedd (cynnwys arian yn y banc) £1564.05

**<u>Llythyrau & E-bost</u>**

**Parc Eryri**—Derbynwyd copi o'r cynllun datblygu lleol ardal Eryri.

Nid oes gan y cyngor sylwadau ynglyn a chynnwys y cynllun ar hyn o bryd.

**Cyngor Gwynedd-** Derbyniwyd llythyr gan Cyngor Gwynedd ynglyn safle'r ysgol.

R'oedd Cyngor Gwynedd yn dymuno gwybodaeth am y teulu a roddodd y tir i'r awdurdodau er mwyn cael adeiliadu'r ysgol.

Cyng G.Edwards i gysylltu hefo'r cyngor.

**CNC-** Derbyniwyd gwybodaeth gan Nicola Maysmor fod Ffordd yr Afon Wen ar gau yn ystod dyddiau cynnar Gorffennaf er mwyn cynnal Gwaith yn yr ardal.